



CYNLLUN IAITH GYMRAEG
ADRA (Tai) Cyf

Paratowyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Cod Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg ar y 19 o Fawrth 2019.

1. Datganiad Agoriadol

1.1 Nod y Cynllun

- 1.1.1 Mae Adra (Tai) Cyf wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn yr ardaloedd yr ydym yn eu gwasanaethu.
- 1.1.2 Fel y gymdeithas dai fwyaf yng ngogledd Cymru sy'n berchen ar 7,000 o gartrefi erbyn hyn, mae effaith ein gwaith ar ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn bellgyrhaeddol. Rydym yn mynd tu hwnt i ofynion statudol yn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gweithle ac yn ein cymunedau ac rydym am annog a chynorthwyo eraill i wneud yr un fath gan fod yn sefydliad angor lle mae eraill yn troi atom am gymorth ac arweiniad.

1.2 Amcanion

Amcanion sylfaenol Adra ynglŷn â'r Gymraeg yw;

- 1.2.1 Galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu gysylltu gyda'r Gymdeithas i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol.
- 1.2.2 Sicrhau gwasanaethau Cymraeg a Saesneg o ansawdd uchel.
- 1.2.3 Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
- 1.2.4 Annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg.
- 1.2.5 Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gweinyddu fewnol Adra gan ddarparu cyfleoedd hyfforddiant i staff i ddatblygu a gwella eu sgiliau a'u hyder ieithyddol yn y Gymraeg.
- 1.2.6 Mae Adra yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd Adra felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin â hi yn unol â'r egwyddor uchod.

2. Cyflwyniad

Mae'r rhan fwyaf o eiddo Adra yng Ngwynedd ac er bod rhan fwyaf o'i stoc tai wedi eu lleoli o fewn dinas Bangor, a threfi Caernarfon, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Bala a Thywyn mae sawl eiddo wedi eu gwasgaru mewn trefi, llai, pentrefi ac ardaloedd gwledig. Yn unol â'r strategaeth twf i gwrdd â thargedau heriol Llywodraeth Cymru i ddatblygu mwy o dai cymdeithasol, mae'r cwmni yn awr wedi tyfu i gynnwys datblygiadau tai tu allan i Wynedd, gyda phresenoldeb amlwg mewn cymunedau yn Sir Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint a Wrecsam.

2.1 Defnyddwyr Gwasanaeth

Prif ddefnyddwyr gwasanaeth Adra yw'r tenantiaid a phreswylwyr sy'n byw yn ein stoc dai. Mae'n tenantiaid a phreswylwyr yn drawstoriad o deuluoedd, pobl sengl neu'n bobl hŷn a chanran gymharol uchel ohonynt yn oedrannus neu'n anabl. Mae'n holl bwysig felly cynnig gwasanaethau yn iaith gyntaf y bobol yma.

2.2 Yr Iaith Gymraeg

2.2.1 Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 73,560 o siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Ngwynedd sef 64.4% o'r boblogaeth. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 17.8% drwy Gymru gyfan. Mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi lleihau o 1% ers cyfrifiad 2011. Yn wir, mae Gwynedd wedi gweld lleihad yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg ym mhob cyfrifiad ers 1981.

2.2.2 Dengys y tabl isod grynodedb o siaradwyr Cymraeg fel canran o'r boblogaeth yn yr ardaloedd hynny ble mae nifer uchel o stoc dai Adra. Gwelir mai'r ardal â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg trwy Gymru yw Caernarfon lle mae gan Adra nifer sylweddol o stoc.

Ardal	%Siaradwyr Cymraeg
Dalgyrch Caernarfon	81.5%
Bro Lleu / Nantlle	76.3%
Bro Peris	74.6%
Bro Ffestiniog	74.4%
Dalgyrch Pwllheli	74.3%
Dalgyrch Bala / Penllyn	73.1%
Bro Ogwen	70.4%
Ardal Pen Llŷn	69.0%
Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth	66.8%
Dalgyrch Dolgellau	57.7%
Bro Ardudwy	47.3%
Dalgyrch Bangor	44.1%
Bro Dysynni	40.1%
Gwynedd	64.4%

Wrth i ni symud ymlaen i ddatblygu cartrefi tu allan i Wynedd, mae canran y siaradwyr Cymraeg o fewn y siroedd hyn yn Rhanbarth Gogledd Cymru fel a ganlyn:

- Ynys Môn 55.8%
- Conwy 26%
- Sir Ddinbych 22.5%
- Sir y Fflint 11.6%
- Wrecsam 12.2%

(Yn unol â chyfrifiad 2021).

3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

3.1 Polisiau a Mentrau

3.1.1 Bydd Adra yn gweithredu yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o brif ffyrddio'r Gymraeg, sef:

“Ystyried y Gymraeg ymhob agwedd o’ch gwaith ac ymhob peth rydych yn ei wneud, gyda’r nod o sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i hyrwyddo a chefnogi’r iaith Gymraeg; cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru wir ddwyieithog; a chynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau yn y Gymraeg a’r Saesneg”.

3.1.2 Wrth lunio polisiau a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiau, bydd Adra yn asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â’r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bod mesurau’r Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiau a mentrau newydd ar waith.

3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod y sawl sy’n ymwneud â llunio polisiau yn ymwybodol o’r Cynllun ac o gyfrifoldebau Adra o dan y Cod Rheoleiddio a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

3.1.4 Gall Cymdeithasau Tai gyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg ar lefel lleol neu gymunedol a byddwn yn anelu i sicrhau fod polisiau a mentrau newydd y Gymdeithas yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o’r Gymraeg lle bynnag y bydd hynny’n bosib.

3.1.5 Rydym yn croesawu’r her sy’n dod yn sgil Strategaeth Cymraeg 2050 lle nodir dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2025. Rydym yn cydnabod y gallwn fel Cymdeithas Dai gyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy roi mentrau amrywiol ar waith i gefnogi ein gweithwyr a chwsmeriaid i ddysgu’r iaith.

3.1.6 Rydym hefyd yn croesawu'r hyn gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn yr Adroddiad Sicrwydd ar gyfer 2022-23 sef bod angen i sefydliadau ‘Godi’r Bar’. Mae’n glir beth sydd angen i sefydliadau ei wneud i sicrhau cydymffurfiaeth ac mae Adra yn barod i fynd y cam ymhellach i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg o fewn ein trefniadau gweinyddu mewnol fel sefydliad ac wrth ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn ymdrechu ym mhopeth a wnawn i roi lle teilwng i’r Gymraeg a cheisio annog gweithwyr a’r cyhoedd i wneud defnydd pellach ohoni.

3.2 Darparu Gwasanaeth

3.2.1 Ein harfer safonol yw sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i’r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg ac rydym yn hysbysu’r cyhoedd bod y gwasanaethau hynny ar gael yn y ddwy iaith.

3.2.2 Rydym yn sefydliad naturiol dwyieithog a gallwn gynnig ein holl wasanaethau yn Gymraeg ar draws y sefydliad.

3.3 Gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill

3.3.1 Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

- a) Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw sefydliad trydydd parti y mae gan Adra unrhyw fath o gytundeb contractiol yn ymwybodol o rwymedigaethau Adra o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a'u bod yn ymwybodol o Bolisi Iaith Gymraeg Adra. Ein nod yw sicrhau bod cyrff trydydd parti yn deall ac yn gweithredu'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cwrdd â gofynion yr egwyddor ddwyieithog a'r Cynllun hwn.
- b) Wrth osod contract, bydd y Cyfarwyddwr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth neu gwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran y Gymdeithas yn cydymffurfio â'r adrannau perthnasol o'r Cynllun. I asesu perfformiad unrhyw gymal iaith sydd wedi'i chynnwys mewn contract, bydd Adra yn rhoi trefniadau monitro ar waith yn unol â monitro dangosyddion perfformiad critigol eraill.
- c) Dylai unrhyw hysbysiad contract a hysbysebair gan Adra gynnwys y Cynllun fel rhan o'u dogfennau tendr. Hefyd, lle bo'n briodol a pherthnasol i natur y contract, gallai Adra:
 - Gynnwys cwestiwn dewis cyflenwr sy'n ceisio pennu a yw'r cyflenwr yn ymwybodol o ymrwymiad Adra i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng yn y Gymraeg;
 - Gynnwys maen prawf cyflenwr i asesu gallu cyflenwr i ddarparu gwasanaeth gwerth gorau sy'n cydymffurfio
 - Gynnwys mesurau i asesu perfformiad yr iaith Gymraeg (fel nifer siaradwyr Cymraeg, nifer o gwynion a derbyniwyd yn ymwneud a'r iaith Gymraeg ayyb)
- d) Bydd Adra yn annog eraill yn y gymuned gan gynnwys cyrff gwirfoddol a chwmnïau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- e) Mae Strategaeth Gaffael Adra ar gyfer 2021-25 yn adlewyrchu gofynion y Cynllun Iaith hwn ac yn amlinellu yn glir i unrhyw drydydd parti bod hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio'n llwyr gyda'n Cynllun wrth ymgymryd â gwaith i Adra.

3.3.2 Grantiau

Pan fyddwn yn dyrannu grantiau, byddwn yn cynnwys amodau o ran defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithgaredd pan fo'n briodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau.

3.3.3 Partneriaethau

Mae Adra yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector wirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae Adra yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

- a) Pan fo Adra yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbwn y Gymdeithas i'r bartneriaeth yn cydymffurfio a'r Cynllun Iaith a bydd Adra yn annog partïon eraill i gydymffurfio yn yr un ffordd;
- b) Pan fo Adra yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia bydd Adra yn gweithredu'n unol â'r Cynllun Iaith.
- c) Pan fo Adra yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu cynlluniau iaith, polisiau iaith neu'r ffordd y maent yn bwriadu gweithredu'n ddwyieithog.
- ch) Fel rhan o bob partneriaeth, bydd Adra yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth er mwyn eu galluogi i weithredu'n ddwyieithog.
- d) Bydd Adra yn sicrhau fod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn wrth weithredu mewn partneriaeth.

3.4 Safonau ansawdd

- 3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chant eu darparu o fewn yr un amserlen.
- 3.4.2 Bydd Adra yn datgan yr egwyddor ddwyieithog ganolog hon mewn dogfennau allweddol fel cynlluniau corfforaethol ac adroddiadau blynyddol. Dylid ei datgan hefyd mewn sefyllfaoedd eraill lle gwneir datganiadau ynglŷn â chyfle cyfartal a safon gwasanaeth.

4. Delio â'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

- 4.1.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.
- 4.1.2 Ymdrinnir â phob gohebiaeth yn brydlon a ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at oedi. Bydd ein targedau ar gyfer ateb gohebiaeth yr un fath yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg.
- 4.1.4 Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.
- 4.1.5 Byddwn yn gohebu gyda chyrrff cyhoeddus a rhai wedi eu dadwladoli yng Nghymru trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Bydd gofyn i staff Adra ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth gyfathrebu gydag unigolion o fewn y sefydliadau hyn – gan y gallai fod yn well gan yr unigolyn hynny dderbyn gohebiaeth yn Saesneg.

- 4.1.6 Bydd gohebiaeth safonol neu gylchlythyr, sy'n cael ei yrru i gynulleidfa eang, e.e. Newyddlen Tenantiaid, yn ddwyieithog.
- 4.1.7 Os bydd rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac am yr un pris (os bydd hyn yn berthnasol).
- 4.1.8 Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd deunyddiau fydd wedi eu hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog bob tro.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.2.1 Mae Adra yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a'n harfer safonol yw sicrhau gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.
- 4.2.2 Mae Adra yn annog pobl i siarad y Gymraeg sydd ganddynt a bydd ein staff bob amser yn amyneddgar ac yn gefnogol wrth siarad dros y ffôn gyda dysgwyr neu rhai sy'n ddihyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.
- 4.2.3 Caiff galwadau i'r ganolfan alwadau ac unrhyw rif ffôn arall a hysbysebiri yn gyhoeddus eu hateb gyda chyfarfodiad Cymraeg a Saesneg, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- 4.2.4 Bydd neges ddwyieithog ar beiriant ateb personol pob aelod o staff.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 4.3.1 Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus gan y Gymdeithas, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, byddwn yn egluro i'r rhai fydd yn bresennol y bydd croeso iddynt gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Fe fydd amgylchiadau lle bydd yn briodol, ar sail gwybodaeth, i gynnal yr holl weithgareddau'n ddwyieithog.
- 4.3.2 Byddwn yn mabwysiadu dull o sefydlu dewis iaith wrth wneud y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Byddwn yn dilyn y drefn ganlynol:
 - a) Bydd hysbysiadau cyhoeddus, gwahoddiadau a phapurau eraill sy'n nodi trefniadau'r digwyddiadau hyn yn nodi'n glir fod croeso i'r cyhoedd gyfrannu yn Gymraeg neu'n Saesneg.
 - b) Bydd y trefnydd yn asesu os bydd angen cyfleusterau cyfieithu ar y pryd – h.y. os bydd unigolion di-gymraeg yn mynychu.
- 4.3.3 Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai a wahoddir neu os yw'n wybyddus bod siaradwyr Cymraeg am fynychu, dylid cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog.
- 4.3.4 Os yw'n hysbys ar gychwyn cyfarfod bod pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg ac yn fodlon ac yn gallu cyfranogi yn y Gymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg.

- 4.3.5 Ein harfer safonol fydd darparu unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig fel taflenni, sleidiau neu ddogfennau arall sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Cyhoeddir adroddiadau neu bapurau yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog hefyd.
- 4.3.6 Bydd ein staff yn gwneud eu gallu ieithyddol yn amlwg ar ddechrau cyfarfodydd.
- 4.3.7 Bydd staff Adra yn cael eu hannog i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol ac i ofyn am ddarpariaeth adnodd cyfieithu ar y pryd.
- 4.3.8 Disgwylir i unrhyw drydydd parti sy'n gweithio ar ran Adra weithredu yn yr un ffordd a fyddai Adra ei hunan yn gweithredu o dan yr un amgylchiadau.

4.4 Cyfarfodydd eraill

- 4.4.1 Mae Adra yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn Gymraeg neu'n Saesneg a byddwn yn gofalu bod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd, sy'n dymuno gwneud hynny, drafod materion yn Gymraeg.
- 4.4.2 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf ac yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.
- 4.4.3 Disgwylir i unrhyw drydydd parti sy'n gweithio ar ran Adra weithredu yn yr un ffordd a fyddai Adra ei hunan yn gweithredu o dan yr un amgylchiadau.

4.5 Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

- 4.5.1 Yn wyneb datblygiadau sylweddol ym maes technoleg gwybodaeth, bydd unrhyw gysylltiadau â'r cyhoedd trwy gyfrwng cyfrifiadurol yn dilyn yr hyn a nodir yn achos 'Gohebiaeth' uchod.
- 4.5.2 Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha bynnag fodd y byddwn yn delio â'r cyhoedd.
- 4.5.3 Mae Adra wedi ymrwymo i alluogi'r cyhoedd i ddelio â ni yn Gymraeg drwy gyfathrebu electronig, ar lein neu gyfryngau eraill.
- 4.5.4 Bydd gwefan Adra yn gwbl ddwyieithog.
- 4.5.5 Byddwn yn ystyried gofynion y Cynllun hwn wrth ddarparu neu gynllunio systemau technoleg gwybodaeth newydd, neu wrth ddarparu cyfryngau rhyngweithiol.
- 4.5.6 Bydd unrhyw neges e-bost awtomatig (e.e. neges 'allan o'r swyddfa') a negeseuon safonol (gwadiad) yn ddwyieithog.

5. Wyneb Cyhoeddus Adra

5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

5.1.1 Defnyddir yr enw **Adra (Tai) Cyf** ar bob achlysur. Mae ein delwedd gyhoeddus gan gynnwys ein cyfeiriad, slogan corfforaethol, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddefnyddir ar ddeunydd a nwyddau'r Gymdeithas (fel papur pennawd, papur ffacs, cardiau busnes, nwyddau marchnata, cyhoeddiadau ayyb) ac mewn amgylchiadau eraill fel ar arwyddion, cerbydau ac adeiladau - yn ddwyieithog.

5.1.2 Byddwn yn defnyddio deunydd brandio Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Mae holl arwyddion gwybodaeth o eiddo Adra, gan gynnwys manau mewnol, yn gwbl ddwyieithog.

5.2.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

5.2.3 Arfer safonol Adra fydd darparu arwyddion dwyieithog, ond mewn achosion pan gaiff arwyddion Cymraeg a Saesneg eu darparu ar wahân byddent yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.2.4 Mae prosesau mewn lle i sicrhau cywirdeb testun, a byddwn yn cydlynu ac arolygu hynny'n ofalus, yn enwedig pan roddir gwaith allan i gytundeb.

5.3 Cyhoeddi a phrintio deunydd

5.3.1 Bydd pob deunydd a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen.

5.3.2 Sicrheir bod staff ac argraffwyr yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a'r gweithdrefnau cyhoeddi.

5.3.3 Bydd yr holl wybodaeth sydd i'w chyhoeddi ar wefan gyhoeddus Adra yn ddwyieithog, a bydd deunydd ar gael i'w ddarllen yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

5.3.4 Byddwn yn sicrhau bod pob testun Cymraeg yn ein cyhoeddiadau o safon uchel a bod y cywair yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol

5.4.1 Bydd pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gan y Gymdeithas sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yn ddwyieithog.

5.4.2 Ein harfer safonol fydd i gynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

5.4.3 Byddwn yn sicrhau bod cysondeb termau yn arfer rheolaidd wrth baratoi ffurflenni.

5.4.4 Bydd unrhyw ddarpariaeth electronig ar gyfer cwblhau ffurflenni yn sicrhau cyfartaledd i'r iaith Gymraeg.

5.5 Datganiadau i'r wasg

5.5.1 Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus Adra. Byddwn yn eu cyhoeddi yn ddwyieithog fel arfer, ond yn Gymraeg yn unig wrth ddefnyddio cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith.

5.6 Ymgyrchoedd marchnata a chyhoedduswydd

5.6.1 Wrth fynd ati i gyflawni gweithgareddau hysbysebu a chyhoedduswydd, gan gynnwys cynhyrchu pamffledi, deunyddiau clywedol, trefnu arddangosfeydd a seminarau, ymgyrchoedd hysbysebu ac ymchwil farchnad byddwn yn gweithredu'r amcanion canlynol:

- a) cynhyrchu pob deunydd cyhoedduswydd yn Gymraeg a Saesneg.
- b) cynnal ymgyrchoedd hysbysebu i'r wasg yn Gymraeg a Saesneg.
- c) hysbysebu ar bosteri a byrddau gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.
- ch) cynnal arolygon cyhoeddus yn ddwyieithog, boed drwy'r post neu wyneb yn wyneb.
- d) cynnal ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yn Gymraeg a Saesneg.
- e) gosod arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth ddwyieithog.

5.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebu recriwtio staff

5.7.1 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus yn ymddangos yn ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Byddent yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.7.2 Bydd hysbysebion am swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog ymhob cyhoeddiad, ond yn Gymraeg yn unig wrth ddefnyddio cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith.

5.7.3 Darperir pecynnau gwybodaeth, fel swydd ddisgrifiadau a manylion personol yn ddwyieithog ar gyfer pob un o'n swyddi.

6. Iaith Weinyddol Fewnol Adra

6.1 Iaith weithredu fewnol

6.1.1 Gyda mwyafrif llethol y staff yn ddwyieithog, iaith weithredu fewnol Adra yw Cymraeg ac fe'i siaredir fel norm. Anogir i bob memorandwm, e-bost a chofnodion mewnol fod yn ddwyieithog.

6.1.2 Bydd negeseuon a gwybodaeth ar faterion allweddol fel amodau gwaith ac lechyd a Diogelwch ar gael yn ddwyieithog bob tro.

7. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun

7.1 Staffio

- 7.1.1 Er mwyn cwrdd â'n nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, byddwn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg hyd at safon sy'n briodol i ddibenion y swydd, ar ôl cynnal asesiad sgiliau iaith ar holl swyddi o fewn y sefydliad.
- 7.1.2 Bydd asesiad sgiliau iaith yn cael ei gynnal ar swyddi presennol ar sail rhaglen dreigl, gyda swyddi sy'n cael eu hysbysebu yn derbyn blaenoriaeth y tu allan i'r broses honno pryd a phan maent yn codi.
- 7.1.3 Bydd holl swyddi â'r Gymraeg yn hanfodol yn parhau felly. Bydd pob swydd arall yn cael ei hasesu i benderfynu a yw'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y swydd ddisgrifiadau a'r manylebau person.

7.2 Recriwtio

- 7.2.1 Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ofynnol ar gyfer pob swydd o fewn Adra, i safon ddisgwyliedig ar draws pob maes y mae'n gweithredu oddi fewn iddo.
- 7.2.2 Mae adran 8 o Bolisi Recriwtio a Dewis Adra yn cynnwys manylion gweithredol ar Recriwtio a Staffio iaith Gymraeg o fewn Adra ar y cyd gyda gwybodaeth ar y broses asesu iaith.

7.3 Hyfforddiant Cymraeg

- 7.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun iaith hwn drwy annog a chefnogi aelodau o staff i wella eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 7.3.2 Bydd rheolwyr a swyddogion Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am hyfforddiant yn annog staff i fynd ar gyrsiau iaith os bydd hyn yn briodol. Caiff cynnydd yn sgil hyfforddiant ei fesur fel rhan o gyfundrefn datblygiad personol Adra.
- 7.3.3 Bydd Adra hefyd yn rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ynglŷn â disgwyliadau'r Cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth anwytho staff newydd. Bydd Adra yn diweddarau'r wybodaeth o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau fod y sesiynau yn gyfoes.

7.4 Hyfforddiant galwedigaethol

- 7.4.1 Bydd Rheolwyr a staff Adnoddau Dynol sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant yn sicrhau hyfforddiant galwedigaethol penodol iaith Gymraeg ar gyfer staff.
- 7.4.2 Byddwn yn datblygu gallu ein staff i gynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bydd hyn yn ymarferol.

7.4.3 Os nad oes cyrsiau parod ar gael yn Gymraeg mewn maes penodol, byddwn yn ystyried trefnu seminarau a gweithgorau ein hunain, neu rwydweithio â sefydliadau eraill.

7.5 Trefniadau gweinyddol

7.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Bwrdd Adra. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y Cynllun hwn ac mae gan bob aelod o staff Adra gyfrifoldeb i wybod sut mae gweithredu'r Cynllun yn effeithiol.

7.5.2 Bydd gan reolwyr gyfrifoldeb am weithredu agweddau o'r Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w gwaith penodol nhw.

7.5.3 Cyfrifoldeb y Pennaeth Llywodraethu yw cydlynu a monitro gwaith y Cynllun o ddydd i ddydd.

7.5.4 Byddwn yn sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant a'r cymorth angenrheidiol i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

7.5.5 Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle byddwn yn darparu adnoddau fel geiriaduron, meddalwedd terminoleg Cymraeg a meddalwedd eraill cyfrwng Cymraeg i staff.

7.5.6 Pan fo angen, byddwn yn gofyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

7.5.7 Er mwyn sicrhau fod gan y Bwrdd drosolwg ar weithrediad y Cynllun hwn, bydd Adra yn datblygu rôl 'Hyrwyddwr Iaith' i'w ddal gan un o'r aelodau bwrdd. Diben y rôl yma fydd i oruchwylio a chefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu ac i fod yn bencampwr i hyrwyddo defnydd yr iaith ar bob lefel.

7.6 Arolygu gweithredu'r Cynllun

7.6.1 Mae gan y Pennaeth Llywodraethu gyfrifoldeb am arolygu ac adolygu'r Cynllun hwn.

7.6.2 Bydd adolygu'r Cynllun hwn yn weithgaredd parhaus â strwythur iddo. Bydd hyn yn cynnwys arolygu'r meysydd canlynol:

a) cydymffurfiaeth â'r Cynllun.

b) ansawdd y gwasanaeth – edrych ar gwynion a'r rheolaeth a gweinyddiad gwasanaeth rheng flaen.

c) digonolrwydd sgiliau ieithyddol – yn seiliedig ar ymrwymiad 7.1.1.

7.6.3 Byddwn yn defnyddio trefn gwyno arferol y Gymdeithas i gofnodi a delio â chwynion am y Cynllun hwn ac yn sicrhau bod posib arolygu cwynion am y Cynllun yn benodol. Bydd cwynion am y Cynllun ac unrhyw gwynion iaith arall yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau.

- 7.6.4 Mae'r Gymdeithas yn croesawu ac yn cofnodi argymhellion ar sut i wella'r gwasanaeth.
- 7.6.5 Bydd adroddiad cwynion blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd gydag adran berthnasol ar gwynion ieithyddol ac awgrymiadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd.ar sut i wella'r Cynllun

7.7 Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad

- 7.7.1 Byddwn yn creu Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a byddwn yn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Bydd copi caled hefyd yn ein holl swyddfeydd petai aelod o'r cyhoedd yn dymuno ei ddarllen.
- 7.7.2 Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn benodol ar y meysydd canlynol sy'n seiliedig ar y safonau a'r targedau yn y Cynllun (bydd y wybodaeth hon hefyd yn ymddangos yn ein hadroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg):

Dangosydd	Manylion
DIAdra01 (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth)	Nifer a chanran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg, fesul adran, gradd y swydd a gweithle (swyddfeydd a depo)
	Canran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg fesul adran
	Canran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg fesul gradd y swydd
	Canran staff Adra sy'n medru siarad Cymraeg fesul gweithle
DIAdra02 (Safon Gwasanaethau Iaith Gymraeg)	Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a chanran y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol Adra.
DIAdra03 (Datblygu Sgiliau)	Nifer a chanran staff sydd wedi derbyn hyfforddiant dysgu Cymraeg a hyfforddiant gloywi iaith

7.8 Cyhoeddusrwydd

- 7.8.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut gallent ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg.
- 7.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn sicrhau caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.
- 7.8.3 Byddwn yn sicrhau bod staff y Gymdeithas yn gyfarwydd â'r mesurau sydd yn y Cynllun er mwyn gwneud yn siŵr y telir sylw i'r mesurau bob tro y bydd hynny'n briodol.

Dylid cyfeirio pob ymholiad am y Cynllun Iaith at Aled Davies, Pennaeth Llywodraethu trwy lythyr;

**Pennaeth Llywodraethu
Adra (Tai) Cyf
Tŷ Coch
Llys y Dderwen
Parc Menai
Bangor
LL57 4BL**

**neu
ymholiadau@adra.co.uk**

**neu
0300 123 8084**